

Mae Cymdeithas y Cymod yng Nghymru yn rhan o fudiad heddwch a chyfiawnder rhyngwladol, sydd wedi ei sefydlu ers 100 mlynedd. Mae'r aelodau'n gwrthod rhyfel a thrais ar sail eu ffydd neu gredo. Fe ydan ni yn credu fod dulliau amgenach i ddatrys anghydfod. Dyma pam 'rydym ni yn gwrthwynebu'r drones yr Awyrennau di beilot (*neu Adar Angau*) gan y cant eu defnyddio ar gyfer ddull ffiائد iawn o ryfela.

Mae yna lawer math o "Drones" militaraidd cant unai eu rheoli o bell neu fe gant eu rhaglennu i reoli eu hunain. Mae rhai yn cario taflegrau a bomiau ac eraill yn cael eu defnyddio i gadw gwylidwriaeth a rhagchwilio (e.e. canfod targedi).

Defnyddiwyd Drone o'r enw PREDATOR am y tro cyntaf gan yr UDA ym Mosnia ym 1995. Doedd dim arfau arni i ddechrau ond yn fuan wedyn fei datblygwyd i gario arfau. Deuddeng mlynedd yn ôl ar ôl 9/11 fe ddechreuodd yr UDA ddefnyddio drone o'r enw PREDATOR yn Afghanistan ac erbyn hyn maent yn defnyddio hon neu ei holynydd y REAPOR yno'n ddyddiol. Mae'r REAPER yn cario 4 taflegryn "Hellfire" a 2 fom 500lb sydd yn cael ei thargedu hefo laser.

Yn 2007 y dechreuodd Prydain ddefnyddio REAPERS yn Afghanistan ac yn 2012 'roedd yno 44 criw yn hedfan 3 y dydd a rhain yn yr awyr am 24 awr bob dydd o'r wythnos. Mae Prydain yn bwriadu dyblu nifer ei drones yno yn ystod y flwyddyn nesaf.

Pam datblygu'r fath arfau? Wrth reoli'r drones o bell does dim peryg i'r gweithredwr sydd wrth sgrin mewn llefydd fel Waddington yn Swydd Lincoln neu Las Vegas yn yr UDA (yn gorfforol o leiaf). A chan fod tybiaeth honedig fod y taflegrau yn gywirach, mae hyn yn gwneud ymosodiadau yn fwy tebygol ac yn arwain at ladd llawer iawn o sifiliaid nad oes ganddynt gysylltiad â'r gwrthdaro.

Mae'r cynnydd yn y defnydd o drones wedi bod yn aruthrol nid yn unig yn Afghanistan ond hefyd ym Mhakistan ,Yemen ,Somalia ,Libya a Gaza ac mae'r rhestr yn cynyddu. Mae yna ychydig o leihad yng ngwariant milwrol yr UDA ar ddrones eleni ond dywed y Teal Group (cwmni ymgynghori i'r diwydiant awyr ac amddiffyn) y bydd y gwariant blynyddol ar y dechnoleg yma yn cynyddu o \$5.2 Biliwn i \$11.6 biliwn yn ystod y ddegawd nesaf. Mae Prydain wedi gwario dros £2 biliwn yn barod. Yn ôl adroddiad Cyngres America roedd nifer y gwledydd oedd yn meddiannu drones wedi cynyddu o 41 i 76 rhwng 2005 a 2011.

Dim ond yr UDA, Prydain ag Israel sydd yn defnyddio rhai arfog ond mae rhai o wledydd Ewrop wedi dechrau ei phrynu a'i hadeiladu. A hyn er bod mwy na hanner trigolion y gwledydd Ewropeaidd a 44% ym Mhrydain yn gwrthwynebu defnyddio drones arfog. Ein gofid ni yw mai gorllewin Cymru yw un o'r llefydd lle mae'r datblygiadau yma'n digwydd.

Er nad oes arfau ar hyn o bryd ar y WATCHKEEPER y drones sy'n cael ei hedfan yn Aber-porth mae sôn y gallant gael eu datblygu i'w cario. Mae QinetiQ (cinetic) sydd yn eu hedfan yno ac am wneud hynny yn Llanbedr yn gwmni sy'n profi taflegrau ar gyfer y fyddin ar hyn o bryd.

Mae'r Weinyddiaeth amddiffyn (Brydeinig) yn gyndyn iawn o ryddhau'r ffigyrau sy'n dweud faint a phwy sydd yn cael ei lladd gan y drones. Yn Ionawr 2012 yn ôl ei ffigyrau ei hunan roddent wedi hedfan drones am 20,000 awr a saethu at dargedau 200 o weithiau ac erbyn hyn mae'r ffigwr yn 400.

Mewn arolwg gan y Cenhedloedd Unedig yn ddiweddar soniwyd am 33 streic gan ddrones oedd wedi lladd sifiliad ac yn debygol o fod wedi torri cyfraith ddyngarol ryngwladol. Trafodwyd y defnydd o drones yn y CU fis diwethaf a beirniadwyd polisi drones Obama gan lawer o'r gwledydd. Fe ddylem ymgyrchu i gael cadarnhad fod y Cyfreithiau rhyngwladol yn cael eu torri a dylid gwahardd y defnydd yma o Drones; fel y gwneir hefo bomiau clwstwr ac "anti personnel mines".

Er nad yw'n faes y gad a bod y prif weinidog wedi bod yn ymbil ar yr UD i atal, ymosodir ar Bacistan yn ddidrugaredd gan y drones. Dywed y "Bureau of Investigative Journalism" fod "strikes" (ergydion) gan y CIA ym Mhacistan rhwng 2004-2013 wedi lladd rhwng 2500 a 3600. 'Roedd rhwng 400 a 920 ohonynt yn sifiliaid a 200 o'r rheini'n blant.*

Mae'n hawdd cael ein dallu gan ystadegau dyma rai adroddiadau am y rhai a gafodd eu lladd.

Nain 68 oed gan daflegryn "Hellfire" yn Hydref 2012 wrth hel llyisiau hefo'i wyrion.

Lladdwyd dros 20 o sifiliaid mewn angladd.

Ym Mehefin 2012 tra yr oeddent yn paratoi ar gyfer eu pryd nos ar ôl ei gwaith; lladdwyd 18 o weithwyr yn cynnwys bachgen 14 oed.

Lladdwyd 42 y mwyafrif ohonynt heb unrhyw gysylltiad â'r Taliban mewn cyfarfod o lwyth y Jirga. 'Roeddent wedi ymgasglu yn ystod y dydd y tu allan i orsaf fysiau i geisio datrys anghydfod.

Yn ôl yn Rhagfyr 2006 mae yna adroddiadau i 80 o blant ac un oedolyn gael ei lladd gan ddrôn a hwythau mewn ysgol grefyddol yn Bajaur

Gwneir ymosodiadau fel hyn yn dilyn beth a elwir "signature strikes". Ni fydd yr ymosodwr yn cael gwybod pwy i'w dargedu a dewisir y targed ar sail rhyw ac oedran y person a wel ar ei sgrin. Mae rhywun sy'n tyfu barf yn cario gwn ac yn gyrru car yn cael ei amau o fod yn aelod o'r Taliban ac felly yn debygol o fod yn darged. Gan fod bron bawb o'r dynion yng ngogledd Waziristan (gwaetha modd) yn cario gynau mae'n amhosib dweud pwy sy'n perthyn i'r Taliban. Yn aml mae'r bobol sy'n mynd i geisio achub y rhai a dargedir gan y drones yn cael eu targedu eu hunain gan ail daflegryn.

Dychmygwch fyw yn y cymunedau yma hefo'r Drones yn hedfan bob awr o'r dydd wrth eich pen a chithau ddim yn

gwybod pwy a gaiff ei dargedu nesaf. Mae'n cael effaith seicolegol ddifrifol ac mae llawer o bobol ofn gadael eu tai.

Ydi hyn yn mynd i leihau'r peryg oddi wrth derfysgwyr neu am fagu mwy ohonynt? Yr unig beth y mae llawer o drigolion y rhan yma o Bacistan yn wybod am yr UDA yw mai nhw yw'r terfysgwyr sy'n gyfrifol am yrru'r Adar Angau i ladd eu teulu a'u cyfeillion.

Dyda ni ddim eisiau creu y math o swyddi yn Llanbedr sy'n profi adar angau all ladd plant ac oedolion di niwed. Ymunwch a ni i sicrhau na fyddwn ni yma yn rhan o'r fasnach ddieflig ag annynol yma.

"The Royal Artillery has a future aspiration to weaponise Watchkeeper"

* Total strikes: **376** Obama strikes: **325** Total killed: **2,525-3,613**
Civilians killed: **407-926** Children killed: **168-200** Injured: **1,117-1,505**

REAPER \$54 miliwn yr un